

Codau Presenoldeb Cofrestr Gofal Plant y Blynyddoedd Cynnar

Cod	Disgrifiad Byr	Categori presenoldeb	Defnydd
I	Presennol (bore)	Presennol	Defnyddiwch hwn i ddangos bod y plentyn wedi bod yn bresennol yn ystod y bore.
l	Presennol (prynhawn)	Presennol	Defnyddiwch hwn i ddangos bod y plentyn wedi bod yn bresennol yn ystod y prynhawn.
L	Hwyr	Presennol	Defnyddiwch os yw plentyn yn cyrraedd y lleoliad 15 munud neu fwy ar ôl dechrau'r sesiwn - defnyddiwch y cod hwn. Dylai gosodiadau annog pobl i beidio â chyrraedd yn hwyr a bod yn effro i batrymau cyrraedd hwyr.
V	Ymweliad neu daith addysgol	Presennol	Teithiau ac ymweliadau wedi'u trefnu gan y lleoliad.
C	Amgylchiadau awdurdodedig eraill	Absenoldeb awdurdodedig	Absenoldeb awdurdodedig nad yw'n cael ei gwmpasu gan unrhyw god/disgrifiad arall. Defnyddiwch ar gyfer achlysuron eithriadol yn unig, dylai lleoliadau ystyried pob cais yn unigol gan ystyried y canlynol: • natur y digwyddiad a achosodd yr absenoldeb • ei amllder (a yw'n achos untro, neu'n debygol o ddod yn ddigwyddiad rheolaidd?) • a roddodd y rhiant rybudd ymlaen llaw • patrwm presenoldeb cyffredinol y disgybl Gallai enghreifftiau gynnwys achlysuron arbennig fel argyfwng teuluol sydyn, profedigaeth deuluol, ymweliadau carchar, mynychu priodas aelod o'r teulu. (Enghreifftiau yw'r rhain ac ni fwriedir iddynt fod yn gynhwysfawr.)
H	Gwyliau teuluol	Absenoldeb awdurdodedig	Defnyddiwch hwn os yw rhiant/gofalwr wedi dweud wrth y lleoliad na fydd y plentyn yn bresennol oherwydd ei fod ar wyliau.
I	Salwch	Absenoldeb awdurdodedig	Defnyddiwch hwn os yw rhiant/gofalwr wedi dweud wrth y lleoliad fod y plentyn yn sâl ac na fydd yn bresennol.
M	Apwyntiad meddygol/deintyddol	Absenoldeb awdurdodedig	Defnyddiwch hwn os yw rhiant/gofalwr wedi dweud wrth y lleoliad na fydd y plentyn yn bresennol oherwydd apwyntiad meddygol neu ddeintyddol.

O	Plentyn ddim wedi cyrraedd	Absenoldeb anawdurdodedig	Absenoldeb anawdurdodedig nad yw'n cael ei gwmpasu gan unrhyw god/disgrifiad arall. Defnyddiwch os nad yw'r rhiant/gofalwr wedi hysbysu'r lleoliad y bydd y plentyn yn absennol. Defnyddiwch hefyd lle mae'r lleoliad wedi'i hysbysu ond nad yw'r rheswm dros yr absenoldeb yn dod yn dod o dan y disgrifiad o 'Amgylchiadau awdurdodedig eraill'. Gall enghreifftiau gynnwys: • Pen-blwydd disgybl/rhiant/brawd neu chwaer/perthynas • siopa • Oherwydd y tywydd • apwyntiad torri gwallt • 'trî't' arbennig • "methu codi o'r gwely" • ysgol eu brawd neu chwaer ar gau • rhiant yn sâl (Enghreifftiau yw'r rhain ac ni fwriedir iddynt fod yn gynhwysfawr.)
R	Diwrnod wedi'i neilltuo'n arbennig ar gyfer defodau crefyddol	Absenoldeb awdurdodedig	Defnyddiwch ar gyfer absenoldeb i gymryd rhan mewn unrhyw ddiwrnod sydd wedi'i neilltuo'n arbennig ar gyfer defodau crefyddol gan y corff crefyddol y mae'r rhieni yn perthyn iddo, gan gynnwys gwyliau crefyddol. Dylid annog rhieni i roi rhybudd ymlaen llaw.
Y	Cau'n rhannol neu gau gorfodol		Defnyddiwch hwn pan fo'r lleoliad ar gau oherwydd tywydd garw, materion gwresogi neu faterion staffio ac ar gyfer diwrnodau HMS. Defnyddiwch hwn hefyd os nad yw plentyn yn gallu bod yn bresennol gan eich bod chi'n gweithio gyda nifer llai o staff.
Z	Plentyn heb ddechrau yn y lleoliad		Defnyddiwch y cod hwn pan nad yw'r plentyn wedi dechrau ei leoliad eto. (Nid yw'r plentyn i fod i ddechrau yr wythnos honno.) Os oedd y plentyn i fod i ddechrau ond nid oedd wedi cyrraedd, dylai hyn fod yn absenoldeb anawdurdodedig (O)

X	Lleoliad gofal plant gostyngol		Defnyddiwch hwn i ddynodi lleoliad gofal plant gostyngol. Bydd eich cofrestr yn cynnwys nifer yr oriau y mae pob plentyn yn cael ei ariannu i fynychu. Pan fo plentyn yn cael ei ariannu i fynychu llai na 5 sesiwn, rhaid ychwanegu X at y sesiynau eraill i'w wneud yn 5. Er enghraifft, ar gyfer plentyn sy'n mynychu ar fore Llun, bore Mawrth a bore Mercher, dylai'r codau presenoldeb perthnasol gael eu dewis i ddangos presenoldeb neu absenoldeb. Gan nad yw'r plentyn yn mynychu pob un o'r 5 sesiwn, rhaid ychwanegu X ar gyfer y ddwy sesiwn arall, sef bore Iau a bore Gwener. Rydyn ni'n defnyddio hyn i fonitro pan nad yw plant yn manteisio ar bob un o'r 5 sesiwn.
#	Session is not relevant to the child		Defnyddiwch y cod hwn ar gyfer y 5 sesiwn yn yr wythnos nad ydyn nhw'n berthnasol i'r plentyn. Er enghraifft, pan fo plentyn yn mynychu 5 sesiwn fore, dylai'r cod presenoldeb neu absenoldeb perthnasol gael ei ddefnyddio ar gyfer pob un o'r sesiynau bore. Dylai # gael ei ddefnyddio ar gyfer pob un o'r 5 sesiwn brynhawn. Defnyddiwch hwn hefyd ar gyfer gwyliau banc.